

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth yr 12ed o Fawrth 2019.

- 1. Presennol:** Ffion Jones – Nantlle (Cadair); Harry Wyn Owen, Sian Dafydd – Talysarn; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Dylan Herbert, Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Justin Davies, Nerys Williams – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Nora Jones (Talysarn); Judith Humphreys (Cynghorydd Sir)
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Hefina Roberts yn datgan diddordeb – cais cynllunio CPD Nantlle Vale.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Chwefror.** Hefina yn datgan cywirdeb a Barry yn eilio.
- 4. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** (Ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Judith Humphreys). Derbyniwyd adroddiad yn ysgrifenedig ganddi drwy ebost, ac fe'i ddarllenwyd. Craig yn adrodd fod bwriad o gynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn Llanllyfni i drafod materion ysbwriel a baw ci.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** (Ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Rhian Williams ar gyfer y cyfarfod heno). Darllenwyd ymatebion Cyngor Gwynedd. Panel Cael Efa Lwyd – Dylan yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Cymuned.
- 6. Materion Pentrefi**

Talysarn Tyllau yn y ffordd ar Ffordd Rhiwlas, Lon yr Eglwys a Ffordd Bryncelyn; Cwynion am faw ci, a bagiau baw ci yn cael eu gadael ym mhob man. Trafodwyd hyn, a nid yw'r Cyngor yn teimlo fod digon o wardeiniaid cwn yn Dyffryn Nantlle. Penderfynwyd cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto a gofyn y cwestiwn 'beth allwn ni ei wneud?' Awgrymiadau i'r Cyngor – cyflogi warden a fyddai'n cael ei weld yn aml, sef swyddog mewn fan. Peilota dull DNA, sydd yn cael ei weithredu gan Gynghorau eraill e.e. Birmingham ac ymholi beth yw'r gost. Efallai arbrofi mewn un ardal o'r Dyffryn.

Llanllyfni Tyllau yn y lon i'r ysgol – holi eto, gan eu bod yn beryglus, a bod pryder gennym i'r plant bach frifo; Tyllau yn y ffordd wrth Pont Crychddwr eto.

Penygroes 2 fainc y tu allan i fflatiau Trem yr Wyddfa wedi eu difrodi a'u cefnau wedi eu tynnu i ffwrdd. Holi Cyngor Gwynedd os mai hwy sydd yn berchen ar y meinciau, a gofyn iddynt gael eu trwsio. ; Lon tu cefn i'r hen Co-op yn dyllog – tyllau dyfn, a dim golau ar y ffordd ; Llechi rhydd yn landar yr hen Co-op ; Gor-yrru yn mynd yn waeth, a cwyn wedi ei dderbyn fod ceir wedi eu gweld yn rasio ochr yn ochr ar y Stryd Fawr ; Judith a Justin wedi cyfarfod efo Dylan Wyn Jones yn barod – problemau gor-yrru yn Nantlle, Penygroes, Llanllyfni – awgrymu i Arrive Alive i newid safle; Ail-adrodd am y tyllau yn Trem yr Wyddfa; Llongyfarch Siop Griffiths are u llwyddiant o agor yn ddiweddar; Diolch i Barry am fynd i agoriad y Co-op ar ran y Cyngor Cymuned; Mae angen railing ar y pafin rhwng y ddwy fynedfa i'r Co-op i rwystro pobl rhag croesi rhwng dau fws – yn enwedig rwan efo'r cynlluniau am y ddau lloches bws newydd a'r layby. Gellir gwneud y gwaith yr un adeg a'r landscapio cysylltiedig a'r llochesi bws. Barry yn datgan pa mor ddiolchgar yw'r Cyngor i waith caled Judith; Cysylltu efo'r Heddlu gan fod ceir yn parcio ar y palmant tu allan i'r Co-op.

Nebo Cors y Llyn – Dafydd yn adrodd fod Cyngor Cymuned Clynnog Fawr yn gwadu cyfrifoldeb am y rhan o'r gors sydd yn ffiniau eu Cymuned hwy. Penderfynwyd edrych eto drwy'r gweithredoedd am unrhyw dystiolaeth. Y Bwrdd Dwr wedi cyfrannu at y brosiect ac wedi dechrau ar y gwaith o chwistrellu. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Parc Cenedlaethol i holi os oes polisi ar ddifa Caenglwm Siapaneaidd ar dir sydd yn eiddo iddyn nhw; Cafwyd adroddiad fod tipio slei bach ar lon y Mast i'r llyn. Cafwyd sylw fod cyfnod aros hir i drigolion mewn perthynas a'r gwasanaeth casglu eitemau swmpus , ac efallai y gall hyn gyfrannu at y broblem o tipio slei bach.
- 7. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd.
- 8. Cynllunio** .C19/0201/22/LL Penrhiw, Penygroes – estyniadau i gefn annedd - caniatâu; C19/0200/22/LL CPD Nantlle Vale – codi estyniad unllawr - caniatâu; 32 Ffordd y Sir, Penygroes – codi estyniad deulawr to fflat - caniatâu.
- 9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Dorothea. Sian yn adrodd yn ol o'r cyfarfod. Rhannwyd gwybodaeth gyda'r Cyngor am gynnigion Cwmni Dorothea ar gyfer y safle, a'r rhaglen arfaethedig ar gyfer y llwybrau. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Cyngor Gwynedd a gofyn yn swyddogol i Gyngor Gwynedd gysylltu pan fydd cais gerbron. Gofynwyd i Dylan os y byddai yn fodlon mynychu'r is-bwyllgor nesaf oherwydd ei arbenigedd ar gynlluniau trydan. Diolchwyd pawb a fynychodd y cyfarfod; Is-bwyllgor y 3 Cyngor Cymuned – OP yn adrodd nad oedd prwpas parhau i gyfarfod mwyach. Pawb yn

cytuno; RWP – OP yn adrodd fod angen gwarchodd y gofeb, ac y bydd yn gofyn i rywun arwain ar yr ymgyrch a rhoi sylw yn y wasg.

10. Goleuadau Nadolig. Dylan Herbert wedi cyfarfod efo Cyngor Gwynedd a chychwyn trafodaethau, ac am drïo cael pris cyn ddiwedd mis Ebrill. Cyngor Gwynedd eisïau ymweld â phob un polyn er mwyn asesu yn llawn.

11. Trethi Tai Haf. Cyngor Gwynedd wedi penderfynu codi 50% ar ben y dreth ar ail-dai. Praesept wedi cynyddu, trethi wedi cynyddu, cost yr Heddlu wedi cynyddu. Mae rhai cannoedd yn osgoi talu drwy newid defnydd ail gartrefi. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Llywodraeth, Cyngor Gwynedd a Sian Gwenllïan i awgrymu capio nifer tai haf o fewn ardal, ac yn ogystal, awgrymu y dylid cael caniatad cynllunio newid defnydd o dy annedd i dy haf.

12. Bordiau Arafu Traffig. Trafod mis nesaf.

13. Penderfyniad Ffurfiol y Cyngor parthed Cydnabyddiaeth Ariannol Anorfodol. Penderfynwyd cytuno efo cymal 48 yn unig (costau teithio) a'r gydnabyddiaeth orfodol o £150 y Cynghorydd. Atgoffwyd ac Cynghorwyr fod angen hysbysu'r Clerc yn swyddogol os am benderfynu gwrthod y taliad.

14. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

*Hysbysiad o gais deddf Trwyddedu – Co-op, Penygroes. Derbyn.

*Ymgyngori Cyhoedus Canllawiau Cynllunio – Ail-adeiladu tai a throsi adeiladau yng nghefn gwlad, ac ymrwymïadau cynllunio. (<http://www.gwynedd.llyw.cymru/cca>) Yr wybodaeth ar y we.

*Gwaharddiadau trafndiaedd trwodd dros dro – Ffordd Coed Madog; Ffordd Hyfrydle. Er gwybodaeth.

***Arall**

*Cynllun Datblygu Lleol Eryri: mabwysïadu – derbyn.

*Un Llais – Cyflwyniad i Gynllunio – cwrs i Gynghorwyr 20/3; Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol; Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; Cefnogaeth Ariannu 2019-20; Cynrychiolydd Un Llais ar Grwp Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr; Pwyllgor Ardal Dwyfor; Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i gyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed; Pwer solar cymunedol wledig. Rhannwyd yr wybodaeth drwy ebost.

*Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru. Derbyn cynnwys y llythyr.

*Cyngor Cymuned Llandwrog – ffi parcio Dinas Dinlle. Derbyn y llythyr – dim sylwadau.

15. Clwb Ieuentid Cafwyd trafodaeth, a gofynwyd y cwestiwn paham fod angen y Clwb Ieuentid – roedd adroddïadau wedi eu derbyn fod achosion o falurio. Pryder fod y cyfnod treialu ddim wedi gweithio. Grwp ieuentid wedi ei greu erbyn rwan. Roedd pryder fod niferoedd isel, a bod gwell helpu Iwth Pen. Pryder hefyd fod lleoliad cyfarfod y Clwb Ieuentid yn anaddas. Trafod eto mis nesaf efo Judith.

16. Llwybrau a Mynwentydd Ebost parthed bedd yng Ngorphwysfa – gyrru manylion o'r bedd i Harry. Dim ond y contractwyr sydd efo caniatad i dorri tyfiant yn y mynwentydd.

17. Materion yn ymweud a'r heddlu. Holi'r Heddlu pwy yw'r PCSO newydd ar gyfer pentrefi Dyffryn Nantlle.

18. Materion ariannol – Derbynebaw Clerc; Ffon/Rhyngwyd £25; Dwr Cymru £97.53; Zurich Municipal £1338.71; Designer Signs £50.22; Un Llais £634. Cadarnhad fod taliad llwybrau wedi ei dderbyn £536.37. Derbyn

19. Ceisiadau am Arian – Ambiwlan Awyr Cymru. Trafod mis Chwefror. **Diolchiadau.** Darllenwyd y diolchiadau.